# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET

## DYDD MERCHER, 17 MAI 2023

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths a/ac S.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, H.Jones, C.Griffiths, C.John a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth y Swyddog a'r Aelodau canlynol ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod. Roedd y ddau yn ystyried bod eu buddiannau yn rhagfarnol, felly gadawsant y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais ar bob eitem benodol:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S K Hunt | Cofnod Rhif 6, - Cadeirydd Y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus - Grŵp Cynghori Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Adnewyddadwy - gan fod yr adroddiad yn ymwneud ag ef yn bersonol. |

| | |
|---|---|
| K Jones (Prif Weithredwr) | Cofnod Rhif 5 - Rhoi Indemniad Swyddog i Karen Jones mewn perthynas ag Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru - gan fod yr adroddiad yn ymwneud â hi yn bersonol. |

4. **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

5. **<u>CYMERADWYO RHOI INDEMNIAD I KAREN JONES MEWN PERTHYNAS AG UNED DDATA LLYWODRAETH LEOL CYMRU</u>**

Ar yr adeg hon o'r cyfarfod, ailddatganodd K Jones ei budd, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth ar hynny.

**Penderfynwyd:**

Rhoi indemniad i Karen Jones (yn ei rôl fel Prif Weithredwr) fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd, mewn perthynas â'i rôl fel Cyfarwyddwr Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Cynnig indemniad i Swyddog a benodwyd yn Gyfarwyddwr oherwydd ei chyflogaeth yn y cyngor, ac i sicrhau nad yw'n agored i unrhyw atebolrwyddau personol neu ariannol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **CADEIRYDD CYMDEITHAS RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH CYHOEDDUS CYMRU - GRWP CYNGHORI NEWID YN YR HINSAWDD AC YNNI ADNEWYDDADWY**

Ailymunodd K Jones â'r cyfarfod. Ar y pwynt hwn, ailddatganodd S K Hunt ei fudd, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, ac ni

chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar hynny. Trosglwyddwyd yr awenau i'r Cynghorydd A Llewelyn a aeth ati i gadeirio'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig.

**Penderfynwyd:**

Rhoi awdurdod i Arweinydd y Cyngor weithredu fel Cadeirydd Grŵp Cynghori Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Adnewyddadwy'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus, a nodi Swyddog (i'w gadarnhau gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio) fel y Swyddog Arweiniol sy'n gysylltiedig â'r grŵp cynghori hwn.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Rhoi awdurdod i Arweinydd y Cyngor weithredu fel cynrychiolydd i gorff allanol, ac awdurdodi cyfranogiad swyddogion yn yr un gwaith.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **ARCHWILIO CYMRU - SEFYLLFA ARIANNOL SICRWYDD AC ASESIAD RISG**

Ailymunodd y Cynghorydd S K Hunt â’r cyfarfod gan ailafael yn rôl y Cadeirydd am weddill y cyfarfod.

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

8. **DIWEDDARIAD MEWN PERTHYNAS Â CHYFLWYNO CYNLLUN RHYDDHAD CALEDI CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfynwyd:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

9. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

# CADEIRYDD